**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (FFYRDD AMRYWIOL, PEN-Y-BONT AR OGWR) (GWAHARDD MYNEDIAD) (AMRYWIO) (DIRYMU) 202-**

**HYSBYSIR DRWY HYN** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato wedi hyn fel "y Cyngor") sef Awdurdod Priffyrdd Pen-y-bont ar Ogwr drwy arfer eu pwerau o dan Adrannau 1 a 2 a Rhan IV o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") fel y'i diwygiwyd a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 o'r Ddeddf yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd yn amrywio'r gorchmynion a restrir yn yr atodlen isod. Diben y Gorchymyn arfaethedig yw:-

(i) dileu'r cyfyngiad dim mynediad ar Cae Dre Street wrth y gyffordd â Park Street.

(ii) dileu'r cyfyngiad dim mynediad ar Sunnyside Road ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street. Bydd hyn yn caniatáu i gerbydau sy'n teithio ar hyd Sunnyside Road o'r gyffordd â Stryd yr Angel i ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street, i gael at Sunnyside Road o ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street i'w phen caeedig.

(iii) dileu'r cyfyngiad dim mynediad ar Sunnyside Road ar ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street. Bydd hyn yn caniatáu i gerbydau sy'n teithio ar hyd Rice Street o'r ffordd osgoi, i gael at y rhan honno o Sunnyside Road o ochr y gogledd o'r gyffordd â Rice Street i'w phen caeedig.

**ATODLEN**

1. Gorchymyn Cyngor Sir Morgannwg (Ffyrdd Amrywiol, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Mynediad), 1973 ("Gorchymyn 1973").
2. Gorchymyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ffyrdd Amrywiol, Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Mynediad), (Amrywio) (Dirymu) 2022.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y Gorchymyn, dogfennau Atodlenni, y Cynllun a'r Datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn ar gael drwy gysylltu â residentpermit@bridgend.gov.uk neu ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1501) neu o Dderbynfa'r Swyddfeydd Dinesig yn y cyfeiriad a roddir isod yn ystod oriau swyddfa, neu gellir eu gweld ar-lein yn:
https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau neu sylwadau am y cynigion, ynghyd â'r sail y maent yn cael eu gwneud arni, yn ysgrifenedig at y llofnodwr isod yn y cyfeiriad isod neu drwy e-bost at residentpermit@bridgend.gov.uk, erbyn **02/10/2025**.

Os cewch unrhyw anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen i chi gael yr hysbysiad mewn fformat arall er enghraifft, print bras, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol ar y cyfeiriad isod neu residentpermit@bridgend.gov.uk neu dros y ffôn drwy'r gwasanaethau parcio Ffôn: 01656 815626. Sylwer y gall y Cyngor ystyried yr holl sylwadau sy'n dod i law yn gyhoeddus ac y gallai sylwedd unrhyw sylw ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n ei wneud fod ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus. Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**.**

**Dyddiedig: 04/09/2025**

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.